# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Cadeirydd ac Aelodau Cyngor Sir | Dyddiad: | 27 Tachwedd 2015 |
| | | Deialu Union: | 01824712589 |
| | | e-bost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **CYNGOR SIR** sydd i'w gynnal am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 1 RHAGFYR 2015 yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

| **Rhif Agenda** | **Eitem** |
|---|---|
| **6** | **CYLLIDEB 2016/17 – NEWYDDION DIWEDDARAF** (Tudalennau 3 - 18)<br>I ystyried adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r gyllideb diweddaraf ar gyfer 2016/17 |

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithio a Democrataidd

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Bill Cowie
Ann Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans

Geraint Lloyd-Williams
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson

Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Gwyneth Kensler
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**Adroddiad i'r:** **Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **2 Rhagfyr 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh**

**Awdur yr Adroddiad:** **Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid**

**Teitl:** **Diweddariad ar Gyllideb 2016/17**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn nodi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran darparu cyllideb refeniw 2016/17 ac yn tynnu sylw at y mesurau sy'n cael eu cymryd yn rhan o Gam 5 y broses gyllideb dwy flynedd bresennol. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y buddsoddiad y mae'r cyngor wedi gwneud mewn seilwaith allweddol a gwelliannau ledled y sir dros gyfnod parhaus o ostyngiadau mewn cyllid. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu sut y mae strategaeth cyllideb y cyngor wedi diogelu gwasanaethau allweddol tra'n rheoli sefyllfa ariannol heriol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu trosolwg o'r broses gyllideb a chyflawniadau hyd yn hyn ac i roi crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf. I edrych ar y lefel sylweddol o fuddsoddiad mewn prosiectau cyfalaf mawr a diogelu gwasanaethau allweddol yn ystod cyfnod ariannol heriol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno cyllideb 2016/17 a'r camau arfaethedig i gwblhau'r broses.

Nodi nad yw'r rhan fwyaf o arbedion a wnaed hyd yn hyn yn y broses gyllideb ddwy flynedd wedi gosod toriadau i wasanaethau neu gynnydd mewn costau.

Nodi bod y buddsoddiad cyfalaf o bron i £200 miliwn ar brosiectau a gwblhawyd ac a gynlluniwyd ar draws y sir o 2012 yn ymestyn i 2019.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Ym mis Ebrill 2014, fe nododd strategaeth gyllideb y cyngor fwlch posibl yn y gyllideb o £18miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn bennaf, cafodd hyn ei annog gan fynegiannau y byddai setliad cyllidol y cyngor yn gostwng, ochr yn ochr â phwysau cost nad oedd modd eu hosgoi. Roedd Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2015/16 yn golygu gostyngiad yng nghyllideb y cyngor o 3.6%, a oedd yn cyfateb i £5.3m. Gyda phwysau costau roedd yn rhaid i'r cyngor eu hariannu, megis cyflogau, pensiynau a chynnydd mewn ynni, y bwlch cyllidol ar

gyfer 2015/16 oedd £8.3miliwn a gan ddefnyddio'r un fethodoleg, fe amcangyfrifir y bydd tua £7.4 miliwn yn 2016/17, sef cyfanswm o £15.7miliwn.

Tra'n ymdrin â gostyngiad yn y gyllideb, gosododd y cyngor flaenoriaethau i warchod a buddsoddi gwasanaethau pwysig megis ysgolion, gofal cymdeithasol a'r ffyrdd, ac mae wedi parhau i gyflawni hyn drwy gydol y broses gyllideb.

Enw'r broses i ddod o hyd i'r arbedion angenrheidiol i gyflawni'r gyllideb dros y ddwy flynedd Rhyddid a Hyblygrwydd. Roedd yn cynnwys adolygiad o bob gwasanaeth a gweithgaredd a dadansoddiad o gyllideb refeniw cyfan y Cyngor. Roedd y broses yn ymgorffori cyfres o weithdai cyllideb gydag aelodau etholedig pan gafodd cyllideb refeniw cyfan y cyngor ei gyflwyno ar sail llinell wrth linell, ynghyd â chynigion i wneud arbedion o bob gwasanaeth. Hyd yn hyn, cynhaliwyd pymtheg o weithdai a bydd y gweithdy olaf yn cael ei gynnal 14 Rhagfyr.

Mae crynodeb o sefyllfa'r gyllideb hyd yma i'w weld yn Nhabl 1 isod

*Tabl 1 Crynodeb o Sefyllfa'r Gyllideb*

| **Crynodeb o'r Sefyllfa Camau 1 -5** | **2015/16** £'000 | **2016/17** £'000 |
|---|---|---|
| **Bwlch yn y Gyllideb** | **8,259** | **7,433** |
| **Cynigion** | | |
| Cam 1 | 3,715 | 870 |
| Cam 2 | 3,571 | 1,785 |
| Cam 3 | 473 | - |
| Cam 4 | | 1,290 |
| Cam 5 | | 1,273 |
| **Cyfanswm y Cynigion** | **7,759** | **5,218** |
| **Balansau** | **500** | |
| **Addasiad Sylfaen Drethu** | | **250** |
| **Bwlch** | **0** | **1,965** |

Mae camau 1-4 wedi cymeradwyo cynigion sydd â chyfanswm £4m, a bydd £1.2m pellach yn cael ei gynnwys yng Ngham 5 (manylion ynghlwm wrth yr adroddiad hwn). Mae dadansoddiad o'r arbedion a gyflawnwyd yn y broses i'w gweld yn Nhabl 2 isod:

*Tabl 2 Dadansoddiad o Arbedion Hyd Yma*

| Categori o Arbedion a Gyflwynwyd gan Rhyddid a Hyblygrwydd | 2015/16 £'000 | 2016/17 £'000 | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|
| Comisiynu / caffael /darparu gwasanaeth amgen | 520 | 1,253 | 14% |
| Newid i lefel gwasanaeth a dderbynnir gan y cyhoedd | 867 | 331 | 9% |
| Effeithlonrwydd a Moderneiddio | 2,820 | 2,151 | 38% |
| Cynnydd mewn Ffioedd a Thaliadau neu refeniw allanol | 665 | 128 | 6% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ychwanegol | | | |
| Lleihau gwasanaeth / tynnu gwasanaeth yn ôl | 140 | 240 | 3% |
| Addasiadau Technegol Cyllideb - cyfateb y gyllideb i wariant | 2,747 | 1,115 | 30% |
| **Cyfanswm** | **7,759** | **5,218** | |

Mae mwyafrif helaeth (82%) yr arbedion hyd yn hyn wedi bod yn rhai effeithlonrwydd neu fesurau eraill sydd heb gael effaith negyddol ar wasanaethau i'r cyhoedd. Bu cynnydd o ddim ond 2.75% yn nhreth y Cyngor yn 2015/16, sef un o'r cynnydd isaf yng Nghymru a'r lefel yma o gynnydd yw'r dybiaeth ar gyfer 2016/17.

Caiff y bwlch yn y gyllideb ei gyfrifo drwy ddefnyddio nifer o dybiaethau cynllunio, gan gynnwys y lefel cynnydd yn Nhreth y Cyngor a chwyddiant dros gyflogau a meysydd eraill. Y prif gynhwysyn serch hynny yw lefel y refeniw a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, gan mai dyma yw bron i dri chwarter cyllid refeniw net y cyngor. Mae'r bwlch yn y gyllideb yn tybio gostyngiad arian parod - 4% yn lefel cyllid y cyngor a ddarperir drwy'r setliad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lefel hon o ostyngiad yn gyson â chynghorau eraill yng Nghymru fel rhagdybiaeth cynllunio ac mae'n seiliedig ar fynegiannau (ond nid setliadau dangosol cadarn) y byddai'r setliad ar gyfer 2016/17 yn waeth nag 2015/16, sef 3.6% ar gyfer Sir Ddinbych. Mae pob gostyngiad canrannol yn y setliad refeniw yn cyfateb i oddeutu £1.4 miliwn.

Mae'r sail ar gyfer gostyngiadau yn aneglur gan fod dadansoddiad o Gyllideb yr Haf y DU yn awgrymu y byddai effaith gohirio cyflawni gwarged gyllideb genedlaethol am flwyddyn, a gymerwyd ag effaith ganlyniadol Barnett o bolisïau i ddiogelu cyllidebau iechyd ar lefel y DU, yn rhoi setliad arian cadarnhaol i Gymru. Os mai dyma'r achos, mae'r dadansoddiad yn awgrymu y gallai fod digon o le i ddarparu'r un lefel o amddiffyniad i iechyd yng Nghymru fel yn Lloegr heb wneud toriadau sylweddol i gyllid llywodraeth leol. Mae un senario yn awgrymu y gallai'r gostyngiad cyfartalog i lywodraeth leol fod yn llai nag 1% y flwyddyn nesaf, yn hytrach na'r toriadau llawer mwy difrifol a gafodd eu darogan.

Mae'r rhan fwyaf o gyllidebau cynghorau yng Nghymru yn cael eu gwario i ddarparu addysg a gofal cymdeithasol. Gyda chyllidebau sefydlog, megis ad-dalu dyled, mae llai nag 1 / 5ed i ymdrin â chyllidebau eraill. Felly, petai toriadau o 3-4% yn cael eu gweithredu yn y tymor canolig, byddai maint y gostyngiad yn golygu ei bod yn anochel y byddai rhywfaint o'r effaith yn gorfod disgyn ar ysgolion a gofal cymdeithasol, a fyddai'n ymddangos yn groes i flaenoriaethau cenedlaethol i ddiogelu'r cyllidebau hyn.

Fe fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyllideb ar 8 Rhagfyr gyda Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol yn dilyn ar 9 Rhagfyr. Bydd hyn yn gwneud y sefyllfa ariannu ar gyfer 2016/17 yn fwy eglur. Bydd y cyhoeddiad Setliad Dros Dro yn cynnwys prif ffigur, ond ni chaiff effaith newidiadau i ffrydiau cyllid grant refeniw eu cyhoeddi ar yr un pryd (y mae'r cyngor yn derbyn tua £30m).

O ystyried lefel o ansicrwydd ynghylch y setliad refeniw, mae gweithdai cyllideb diweddar i aelodau wedi canolbwyntio ar ystod o gynigion y bydd angen eu gweithredu efallai yn 2016/17. Er mwyn cynnal momentwm a chyfyngu ar risgiau ar ddiwedd y broses, fe eglurwyd y byddai set o fesurau yn cael eu cyflwyno i'r cyngor er gwybodaeth ym mis Rhagfyr er mwyn gallu nodi effaith y gyllideb. Mae'r cyfan wedi cael eu trafod mewn gweithdai cyllideb neu wedi'i cyflwyno mewn fforymau aelodau eraill, ac maent yn eitemau sydd wedi'i dirprwyo i swyddogion, gan gynnwys ailstrwythuro rheoli, moderneiddio ac arbedion effeithlonrwydd, modelau cyllido amgen a newid cyllidebau i gyd-fynd â gwariant neu risg.  Mae'r manylion yn **Atodiad 1** ac yn cyfrannu cyfanswm o £1.2m at y bwlch yn y gyllideb. O'i ystyried â rhagdybiaethau cynllunio ac ariannu, mae mesurau Cam 5 yn lleihau'r bwlch cyllidebol o £2.093m. Lle y bo'n briodol, fe gwblhawyd asesiadau effaith ac mae modd i aelodau eu gweld yn rhan llyfrgell aelodau ar system Modern.gov.

Nid oes cyfeiriad clir eto ynghylch a fydd cyfarwyddebau i ddiogelu ysgolion a chyllidebau eraill. Bu addewid gweinidogol ers 2011 i ddiogelu cyllidebau ysgolion yng Nghymru gan '1% yn uwch na'r Grant Bloc i Gymru'. Gan dybio bod y Grant Bloc yn weddol wastad, fel y nodir uchod, gellir cyflawni'r addewid hwn drwy beidio â chael gwared ar addasiadau demograffeg disgyblion o'r cwantwm cyllidebau ysgolion, a darparu rhagor o adnoddau pellach i adeiladu ysgolion newydd ledled y sir.

Er mwyn cydymffurfio â'r addewid i 'amddiffyn' cyllidebau ysgolion, dylai'r cyngor fod wedi cynyddu'r cyllid i ysgolion o £3.4m dros y pedair blynedd diwethaf. Yn wir, mae cyllid ysgolion yn Sir Ddinbych wedi cynyddu £6.3m. Manylir ar hyn yn **Atodiad 2**. Bydd yn rhaid i ysgolion amsugno'r holl bwysau costau sy'n codi yn 2016/17, sef £2.5 yn ôl yr amcangyfrif, a chafodd cyllidebau dangosol eu seilio ar hynny. Mae cyllidebau gofal cymdeithasol wedi cael eu diogelu hefyd ac maent wedi cyflawni sefyllfa refeniw cadarnhaol gan ganiatáu buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau a moderneiddio gwasanaethau dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn ogystal â darparu cyllideb gytbwys trwy broses fanwl a heriol, mae'r cyngor hefyd wedi parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau a seilwaith hanfodol bwysig. Mae'n werth ystyried graddfa'r buddsoddiad hwn a'r manteision a ddarperir ledled y sir. Manylir ar y rhain yn **Atodiad 3** ac maent yn dangos rhwng 2012/13 a 2019/10, bydd buddsoddiad cyfalaf gwirioneddol ac arfaethedig yn gyfystyr â bron i £200m yn ystod cyfnod o ostyngiadau parhaus i gyllideb refeniw y cyngor.

| **Crynodeb o Fuddsoddiad Cyfalaf 2012-2020** | **£miliwn** |
|---|---:|
| Ysgolion | 96.8 |
| Ffyrdd | 18.4 |
| Gofal Cymdeithasol | 21.5 |
| Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir | 16.1 |
| Datblygu Economaidd ac Adfywio | 26.8 |
| Hamdden a Llyfrgelloedd | 6.7 |
| Arall | 9.3 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **195.6** |

Bydd cyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol yn hwyr yn golygu efallai y bydd angen addasu amserlen y gyllideb. Mae'n rhaid i'r Cyngor bennu'r gyllideb mewn pryd i fedru cynhyrchu ac anfon biliau Treth y Cyngor ym mis Mawrth. Yn ddibynnol ar lefel y Setliad Dros Dro, mae'n debygol y bydd angen cynnal cyfarfod ychwanegol o'r cyngor llawn i gwblhau'r gyllideb ym mis Chwefror.

Ni fydd Setliad Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi tan 2 Mawrth 2016. Cafwyd sicrwydd na ddylai fod unrhyw symudiad negyddol rhwng gwerthoedd y Setliad Dros Dro a'r Setliad Terfynol. Fel arfer, bydd mân newidiadau data rhwng y ddau, ond cafwyd sicrwydd y bydd hyn wedi'i ystyried yn y fersiwn dros dro. Felly, bydd yn rhaid seilio cyllideb derfynol y Cyngor a Threth y Cyngor ar y Setliad Dros Dro. Mae cyngor cyfreithiol cychwynnol yn awgrymu bod hyn yn dderbyniol cyhyd ag nad yw'r Setliad Terfynol yn wahanol iawn i'r fersiwn dros dro. Ni fydd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru yn mynd gerbron y Senedd tan 8 Mawrth.

Yn **Atodiad 4** mae llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amlinellu amserlen y gyllideb genedlaethol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Gan ddibynnu ar lefel y setliad ariannol, amcangyfrifir bod angen arbedion o £7.4miliwn. Y bwlch yn y gyllideb ar y sail ei fod yn -4% yw £1.9miliwn ar hyn o bryd. Fe gyflwynir cynigion pellach i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb unwaith y byddwn yn gwybod beth yw'r setliad.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Mae AEC wedi'i gwblhau ar gyfer pob cynnig perthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi rhoi sylw manwl i'r broses ymgynghori sylweddol a gynhaliwyd i gyflwyno cyllidebau 2015/16 a 2016/17, gan gynnwys gweithdai, pwyllgorau archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, grwpiau tasg a gorffen, Cyd Bwyllgor Ymgynghorol ac ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd y llynedd. Roedd yr ymarfer ymgysylltu a gwblhawyd y llynedd, o'r enw 'Torri'r Brethyn' yn cynnwys cynigion ar gyfer y ddwy flynedd ariannol a chafwyd 822 o ymatebion a dros 5,179 o ymweliadau â'r wefan. Cafodd yr adroddiad manwl o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ei gyflwyno i'r cyngor y llynedd ac mae ar gael

ar y system Modern.gov. Fe sefydlwyd grŵp tasg a gorffen aelodau i asesu effaith cynigion arbedion sydd wedi eu rhoi ar waith fel rhan o'r broses gyllideb hon. Ers cwblhau'r ail gam o broses y gyllideb dwy flynedd, mae cynigion i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb wedi canolbwyntio ar fesurau effeithlonrwydd ac nid mesurau a fyddai'n cael effaith ar y cyhoedd, ac felly ni fyddai ymgysylltu pellach ar gynigion o'r fath yn werth chweil.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd hon yn parhau'n broses heriol iawn a bydd rhai penderfyniadau anodd i'w gwneud ar hyd y daith. Mae ymrwymiad a chefnogaeth yr aelodau etholedig i'r broses o wneud penderfyniadau ac o graffu ar y broses yn hanfodol.

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y Setliad ariannol yn golygu y gall y bwlch yn y gyllideb a amcangyfrifwyd newid ar gyfer 16/17 ond mae'n rhaid i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y tebygolrwydd y bydd Setliadau ariannol negyddol yn parhau yn y tymor canolig. Mae'r hysbysiad hwyr eleni'n peri rhai risgiau, ond ar hyn o bryd credir bod modd dygymod â nhw.

Mae'n debygol y bydd gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn ynddo'i hun yn ddigonol yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau cyllideb yn rhai caletach ac mae'n debyg y bydd angen rhagor o amser i'w cyflawni.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, o asesu ac o gytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae rheoli risg proses y gyllideb yn ystyriaeth allweddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mae risgiau penodol wedi eu nodi mewn adroddiadau blaenorol. Dynodir ac amlygir y risgiau ariannol a'r risgiau i wasanaethau mewn gweithdai cyllideb wrth ddatblygu'r cynigion.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

| **Appendix 1 Phase 5 - Measures to Address the Budget Gap** | **Description** | **£000** |
|---|---|---|
| Channel Shift - digital choice | Modernisation project to promote more contact and transactions made with the council through digital means. | 210 |
| Better take-up of Green Waste scheme | Budget adjustment to account for the impact of better take-up of the green waste scheme launched last year. | 75 |
| Capital Financing | Adjustment to the capital financing budget to reflect lower borrowing costs and lower borrowing requirements in recent years. | 500 |
| PFI Additional Savings | Additional savings from the termination on the PFI Project Agreement. This will now deliver £575k per annum in revenue savings. | 275 |
| Management restructures (SLT) | Budget adjustment to reflect the change to the council's senior leadership team introduced in May 2015. | 80 |
| Alternative Funding (Town Council) - Ruthin Craft Centre | Replacing county council funding with a contribution from Ruthin Town Council. | 30 |
| Legal/Professional Fees - reduced demand | Changes to thresholds at which legal proceedings are initiated has meant a reduction in the amount of legal fees incurred by Children's Services. This measure is reducing the budget to reflect the new thresholds. | 70 |
| Early Intervention/Family Support | Not replacing a post that has been vacant for some time. The tasks are being dealt with by others and so there is no impact on the service. | 23 |
| Realignment of other budgets to match demand | Proposal is to align other budgets within Children's Services with levels of continuing expenditure, therefore matching demand. The measure is a realigning the budget to match spend so is not a reduction to services. Realignments will be reviewed in future if demand changes. | 10 |
| | | |
| **Measures from Services** | | **1,273** |
| **Funding and MTFP Assumption Changes** | | |
| Amended Medium Term Financial Plan Budget Assumption | Change to a financial planning assumption as a consequence of pupil demography changes and further investment in schools through the 21st Century Schools Programme. | 570 |
| Changes to Council Tax Yield | The Council Tax base has grown slightly higher than the planning assumption so the level of funding available next year will increase as a consequence. | 250 |
| | | |
| **Total Phase 5 Impact on Budget Gap** | | **2,093** |
| | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 2

| | | PERIOD OF WG PROTECTION | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2011/12 £m | 2012/13 £m | 2013/14 £m | 2014/15 £m | 2015/16 £m | 5 year Totals £m | 2016/17 £m |
| | **Targeted Increase Required by WG (%age)** | **0.67%** | **1.58%** | **2.08%** | **0.45%** | **0.60%** | | **? Tbc** |
| A | **Value (£) of Increase Required by WG (target)** | **0.376** | **0.927** | **1.272** | **0.289** | **0.386** | **3.249** | **? Tbc** |
| | Net RA Budget Brought Forward | 56.086 | 58.668 | 61.147 | 64.131 | 64.332 | | 63.390 |
| | Technical Adjustment to Budget (eg Inc/dec Delegation) | 0.060 | 0.660 | 1.700 | -0.120 | -1.140 | | 0.000 |
| | Demographic (pupil numbers) Adjustment | | | | | -0.202 | | -0.320 |
| B | Increase School Budgets less technical and demographic adjustments | 2.522 | 1.819 | 1.284 | 0.321 | 0.400 | **6.346** | 0.470 |
| | Net RA Budget Carried Forward | 58.668 | 61.147 | 64.131 | 64.332 | 63.390 | | 63.540 |
| B-A | **Amount £ over / under target (since 11/12)*** | **2.146** | **0.892** | **0.012** | **0.032** | **0.014** | **3.097** | **? Tbc** |
| | **ESTIMATED** Demogrphic Adjustment NOT Taken as saving / given as pressure | -0.511 | -0.290 | -0.225 | 0.013 | | **-1.014** | |
| | **Schools Balances over the same period** | | | | | | | |
| | **Opening** | 1.578 | 1.801 | 2.870 | 3.892 | 3.538 | | |
| | **Closing** | 1.801 | 2.870 | 3.892 | 3.538 | 1.631 | | |

**NOTES: * This does not take Inflationary pressures into account - the increase is cash based**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 3 Major Capital Investment Analysis**
**Expenditure Period 2012-13 to 2019-20**

| Area | Scheme Description | Investment £m | Status | Period |
|---|---|---|---|---|
| Rhyl | New School | 24.6 | On-going | 2013 - 2016 |
| Rhyl | Harbour Development | 10.6 | Completed | 2009 - 2015 |
| Rhyl | Bee & Station - Renovation to form business units | 1.1 | Completed | 2012 - 2013 |
| Rhyl | Property Acquisition/Demolition and Public Realm Works | 15.1 | Completed | 2012 - 2014 |
| Rhyl | Cefndy Health Care - Investment in Factory | 0.5 | Completed | 2013 - 2015 |
| Rhyl | Coastal Defence Works Ph 1 - 3 | 13.4 | Completed | 2012 - 2015 |
| Rhyl | Housing Improvement - Renewal Area | 2.0 | On-going | 2013 - 2016 |
| | | | | |
| St Asaph | Ysgol Glan Clwyd - Extension and Refurbishment | 15.9 | On-going | 2014 - 2018 |
| | | | | |
| Prestatyn | Bodnant Community School - Extension and Refurbishment | 3.4 | On-going | 2013 - 2016 |
| Prestatyn | New Library | 1.0 | Completed | 2012 - 2014 |
| Prestatyn | NOVA Development | 4.5 | Completed | 2014 - 2015 |
| Prestatyn | Ysgol y Llys - Refurbishment and Remodelling | 2.8 | Completed | 2012 - 2014 |
| | | | | |
| Ruthin | Investment in Primary Area - Town School,Ysgol Carreg Emlyn,Llanfair/Pentrecelyn | 15.1 | On-going | 2014 - 2019 |
| Ruthin | Leisure Centre Re-development | 1.2 | Completed | 2012 - 2013 |
| | | | | |
| Denbigh | Ysgol Pendref | 1.8 | On-going | 2016 - 2019 |
| Denbigh | Ysgol Twm o'r Nant - Extension and Refurbishment | 1.9 | Completed | 2012 - 2015 |
| | | | | |
| Cynwyd/ Llandrillo | Ysgol Bro Dyfrdwy - Extension and Refurbishment | 1.4 | Completed | 2013 - 2014 |
| Corwen | Flood Defence Works | 2.7 | Completed | 2013 - 2015 |
| | | | | |
| **Other:** | | | | |
| County | Extra Care Provision | 21.0 | On-going | 2015 - 2019 |
| County | Improvements to Highways Infrastructure | 18.4 | On-going | 2013 - 2019 |
| TBC | New Faith School | 23.8 | On-going | 2015 - 2019 |
| County | ICT Infrastructure Improvements | 2.4 | On-going | 2014 - 2019 |
| County | Housing Improvement Grants | 4.9 | On-going | 2013 - 2016 |
| County | Schools - Capitalised Maintenance | 6.1 | On-going | 2013 - 2016 |
| | **Total** | **195.6** | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Councillor Bob Wellington**
**Llywodraeth Leol**
**Cymru (CLlLC)**
**Leader, WLGA**

WLGA • CLlLC

Ein cyf/Our ref: MA-P-LA-0378-15

Arweinwyr, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

26 Hydref 2015

Annwyl bawb,

Yn ddiweddar pennodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yr amserlen ar gyfer proses gyllidebol Llywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol 2016-17 yng ngoleuni'r cyhoeddiad am yr Adolygiad o Wariant gan Lywodraeth y DU, sydd wedi'i amserlennu ar gyfer 25 Tachwedd 2015.

Mae ein swyddogion wedi cyfarfod ac wedi ystyried y goblygiadau ar gyfer amseriad setliad Llywodraeth Leol a gwaith yr Awdurdodau Lleol i bennu cyllidebau yng ngoleuni hynny. Rydym yn ysgrifennu atoch ar y cyd i'ch hysbysu am ganlyniad y trafodaethau.

Mae angen caniatáu amser priodol mewn perthynas â'r cyhoeddiad o Adolygiad o Wariant y DU er mwyn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar Gyllideb Cymru. Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn creu anawsterau ar gyfer amseru'r gwaith o bennu cyllidebau gan Lywodraeth Leol, nid yw'r amserlen arfaethedig, yn Atodiad A, yn arwain at unrhyw rwystr cyfreithiol neu ariannol i'r broses.

Er hynny, cydnabyddir hefyd fod heriau ynghlwm wrth yr amserlen. Bydd angen i bob Awdurdod felly roi ystyriaeth i oblygiadau'r amserlen ar gyfer ei ymarfer pennu cyllidebau ei hun.

Mae ystyriaethau penodol yn deillio o'r amserlen a bydd angen cymryd y rhain i ystyriaeth. Maent yn cynnwys y canlynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.




We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Bydd dyraniadau manwl y Grant Cynnal Refeniw ac Incwm Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu a gyhoeddir yn y cyhoeddiad o'r Setliad Dros Dro, ac yn ddarostyngedig i'r broses ymgynghori statudol, yn adlewyrchu'r holl wybodaeth sydd ar gael fel rheol erbyn cyfnod y Setliad Terfynol gan gynnwys gwybodaeth wedi'i diweddaru am y sylfaen drethi.  Dylai hyn ddarparu sylfaen fwy cadarn ar gyfer cynllunio nag a welir fel rheol adeg y Setliad Dros Dro.


- Bydd y Setliad Dros Dro yn cynnwys yr wybodaeth sydd ar gael am grantiau penodol. Bydd i'r gyllideb ddiweddarach oblygiadau, er hynny, ar gyfer penderfyniadau am grantiau penodol unigol.  Mae i'w ddisgwyl felly na fydd data cynhwysfawr am yr holl grantiau'n debygol o fod ar gael adeg y Setliad Dros Dro.  Bydd gwaith yn parhau ar ôl y cyhoeddiad dros dro i roi darlun mor gynhwysfawr â phosibl o gyllid Llywodraeth Leol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

- Efallai na fydd modd cyhoeddi rhywfaint o fanylion y dadansoddiad manylach sy'n sail i ddyraniadau'r setliad, megis elfennau'r Asesiadau o Wariant Safonol a data'r  dangosyddion yr un pryd â'r setliad. Bydd y dadansoddiad sy'n sail i hyn yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl 9 Rhagfyr.

Bydd ein swyddogion yn cadw mewn cysylltiad â chi wrth i'r amserlen ddatblygu.



**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services



**Councillor Bob Wellington**

Arweinydd Cymdeithas
Llywodraeth Leol Cymru/
Leader of the WLGA

**Atodiad A**

**Amserlen Arfaethedig y Gyllideb ar gyfer 2016-17**

| **Dyddiad** | **Gweithgarwch** |
|---|---|
| 25 Tachwedd | Cyhoeddiad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU |
| 8 Rhagfyr<br><br>(wythnos olaf tymor yr hydref) | Cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17 |
| 9 Rhagfyr | Cyhoeddi Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol<br><br>Dechrau ymgynghori'n ffurfiol ar y Setliad |
| 9 Chwefror | Dadl ar y Gyllideb Ddrafft 2016-17 |
| 14 Chwefror | Dyddiad cau dangosol i gyrff codi tâl (ee. Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub) hysbysu'r Prif Awdurdodau am y tâl y bwriedir ei godi |
| 29 Chwefror | Dyddiad cau dangosol ar gyfer cyrff praeseptio (hy. Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Chynghorau Cymuned) i hysbysu Prif Awdurdodau o braeseptau |
| 1 Mawrth | Cyhoeddi Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2016-17 |
| 2 Mawrth | Cyhoeddi Setliad Terfynol Llywodraeth Leol |
| 8 Mawrth | Cynnig Cyllideb Derfynol Cymru 2016-17 ar gyfer Dadl |
| 9 Mawrth[(a)] | Cynnig y Setliad Terfynol ar gyfer Dadl |
| 10 Mawrth | Dyddiad cau dangosol i Brif Awdurdodau bennu cyllidebau a'r Dreth Gyngor am y flwyddyn i ddod. |

(a) Ni all dadl ar y Setliad Terfynol ddigwydd ond ar ôl i'r Gyllideb Derfynol gael ei chymeradwyo.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag